# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 2, Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 28 Chwefror 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

(09.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 24)

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Owain Lloyd, Cyfarwyddwr y Gymraeg ac Addysg, Llywodraeth Cymru

Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(11.00)

### 3.1 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

(Tudalennau 25 - 29)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Sam Rowlands AS

### 3.2 Dyfodol Dur yng Nghymru

(Tudalennau 30 - 31)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

### 3.3 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalennau 32 - 34)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

### 3.4 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical

(Tudalen 35)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Andrew RT Davies AS (Saesneg yn unig)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a'r cyfarfod cyfan ar 7 Mawrth

(11.00)

## Egwyl

(11.00 - 11.10)

## 5 Craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg - trafod y dystiolaeth

(11.10 - 11.30)

## 6 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) – trafod yr adroddiad drafft

(11.30 – 12.15) (Tudalennau 36 – 144)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad Drafft (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Papur tystiolaeth ar gyfer sesiwn graffu gyffredinol Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Cefndir**

1. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei map trywydd newydd ar gyfer addysg – *Safonau a Dyheadau Uchel i Bawb*. Mae hwn yn fap trywydd cydlynol a chydlynus sy'n cwmpasu ehangder ein blaenoriaethau ar gyfer addysg yn nhymor hwn y Senedd, o'r blynyddoedd cynnar i ôl-16 a thu hwnt.

2. Mae ein proses systemig o ddiwygio addysg yng Nghymru wedi cyflwyno cwricwlwm newydd a system newydd i sicrhau y cynllunnir yn briodol ar gyfer anghenion y dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac y cânt eu gwarchod. Drwy hyn, byddwn yn mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a byddwn yn sicrhau ein bod yn cefnogi pob dysgwr.

3. Fodd bynnag, gwyddom fod y system addysg yn wynebu her a rennir o wella perfformiad addysgol a chodi safonau. Ar 13 Ionawr, cyfarfûm â phartneriaid addysg a gwnaethom drafod yr angen i roi ffocws cliriach ar flaenoriaethau cenedlaethol gyda rôl genedlaethol gliriach yn arwain gwaith gwella.Mae'n rhaid inni wella perfformiad drwy wthio ein dysgwyr ond hefyd drwy barhau i leihau'r bwlch tegwch. Er mwyn gwneud hyn, mae angen inni gael ffocws cliriach ar bresenoldeb, ymddygiad a llesiant; addysgu rhagorol; diwygio'r cwricwlwm - gyda ffocws penodol ar lythrennedd a rhifedd; a chymorth o ran anghenion dysgu ychwanegol.

**Presenoldeb**

4. Mae cyfraddau presenoldeb yn is na'r hyn oeddent cyn y pandemig, gan ein hatgoffa o'r effaith barhaus ar ein plant a'n pobl ifanc. Er inni weld rhywfaint o welliant mewn cyfraddau presenoldeb, mae hyn yn araf yn digwydd, ac rydym yn parhau i weld lefelau presenoldeb is o lawer ymysg disgyblion o gartrefi incwm isel a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Rydym wedi sefydlu Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol er mwyn rhoi cyfeiriad strategol, pennu blaenoriaethau a nodi camau gweithredu diriaethol pellach i ysgogi gwelliannau i gyfraddau presenoldeb ac ailennyn diddordeb dysgwyr. Mae'r Tasglu wedi cwrdd ddwywaith ac mae'n ystyried amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth a chamau gweithredu posibl i fynd i'r afael â lefelau presenoldeb isel.

**Plant sy'n colli addysg**

5. Rydym yn ymgynghori ar reoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu cronfa ddata o blant sy'n colli addysg o bosibl; hynny yw, nad ydynt ar y gofrestr yn yr ysgol, nac yn cael addysg heblaw yn yr ysgol, nac y gwyddys eu bod yn cael addysg addas yn y cartref. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 25 Ebrill, ac ar ôl gwerthuso ac ystyried yr ymatebion, caiff y cynigion ar y gronfa ddata eu treialu ledled chwe awdurdod lleol yn ystod tymor y gwanwyn 2025.

**Llythrennedd a Rhifedd**

6. Gwyddom fod Cymru'n gwneud cynnydd cadarnhaol o ran rhifedd a llythrennedd cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod effeithiau'r pandemig wedi dadwneud rhai o'r enillion hyn.

7. Fis Mawrth diwethaf, gwnaethom gyhoeddi ein [pecyn cymorth llafaredd a darllen](), a ddatblygwyd ar y cyd ag ymarferwyr, sy'n cynnig pecyn cymorth i ysgolion i ddatblygu ac ymgorffori eu dull ysgol gyfan eu hunain tuag at gyflawni safonau uchel o lafaredd a darllen. Yn dilyn hyn, cafodd y pecyn cymorth ei ddiweddaru ym mis Tachwedd, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i'r broses systematig a chyson o addysgu ffoneg fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu Safonau a Dyheadau Uchel i Bawb. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i lywio'r modd y gallwn gefnogi'r broses o addysgu llythrennedd a sgiliau ymhellach o fewn y Cwricwlwm i Gymru a gwella'r pecyn cymorth i helpu ysgolion a lleoliadau i gyrraedd safonau uchel.

**Mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad**

8. Mae mynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad wrth wraidd ein cenhadaeth genedlaethol ym maes addysg. Lansiwyd ein rhaglen gyllido Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn 2020 mewn ymateb i'r her a grëwyd gan y pandemig. Mae'n darparu capasiti staffio ychwanegol i bob ysgol a lleoliad sy'n cyflwyno addysg feithrin a ariennir er mwyn sicrhau y gellir nodi effeithiau'r pandemig ar ddeilliannau dysgu a chanlyniadau llesiant plant a phobl ifanc yn gynnar a rhoi camau lliniaru priodol ar waith.

9. Ers 2020, dosbarthwyd £165.5miliwn o gyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar - £59.1miliwn yn 2020-21, £68.9miliwn yn 2021-22 a £37.5miliwn yn 2022-23. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon (2023-24), caiff £37.5miliwn ei ddosbarthu i ysgolion a lleoliadau sy'n darparu addysg feithrin a ariennir ac yn 2024-25, bydd £28.5miliwn ychwanegol ar gael.

10. Nod cyllid Grant Datblygu Disgyblion yw gwella cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel. Gwna hyn drwy leihau'r rhwystrau a wynebir ganddynt yn aml i gyflawni eu llawn botensial. O flwyddyn i flwyddyn, rydym wedi ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion i adlewyrchu unrhyw gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dyrannwyd tua £128m o gyllid i'r Grant Datblygu Disgyblion yn 2023-24.

11. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr rhanbarthol y Grant Datblygu Disgyblion i nodi'r meysydd lle gall y cyllid gael yr effaith fwyaf, yn enwedig yng nghyd-destun yr argymhellion o adroddiad yr Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru; blaenoriaethu cyllid ychwanegol i ysgolion sy'n wynebu lefelau uwch o amddifadedd, a gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau fformiwlâu cyllido ysgolion mwy cyson a thryloyw.

12. Mae'r [canllawiau diwygiedig i'r Grant Datblygu Disgyblion]() (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023) yn pwysleisio gwariant ysgolion ar ddysgu ac addysgu o ansawdd uchel ac ar ddatblygu Ysgolion Bro, gan gydnabod y rôl hanfodol y mae rhieni a theuluoedd yn ei chwarae yn nysgu a datblygiad eu plant, ac effaith yr amgylchedd dysgu yn y cartref ar ddeilliannau.

13. Bydd ein partneriaeth sy'n datblygu â'r Sefydliad Gwaddol Addysgol yn chwarae rhan bwysig yn sicrhau bod gan ein hysgolion fynediad i dystiolaeth ryngwladol bwerus sy'n cyfeirio at y strategaethau dysgu ac addysgu mwyaf effeithiol.

14. Gan weithio gyda'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, rydym wedi nodi grŵp o Hyrwyddwyr Cyrhaeddiad i weithio gydag ysgolion partner i ddatblygu strategaethau ac arferion i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

15. Mae ein Grant Hanfodion Ysgol (y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad gynt) wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i lawer o deuluoedd incwm isel ledled Cymru, drwy helpu i leddfu gofidiau ynglŷn â phrynu gwisg ysgol ac offer, galluogi plant i fynychu'r ysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar yr un lefel â'u cyfoedion. Estynnwyd y grant yn 2021-22 i ddysgwyr cymwys ym mhob blwyddyn ysgol orfodol. Yn 2023-24, rhyddhawyd £13.6m o gyllid ar gyfer y grant.

16. Mae Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) ar gael i ddysgwyr cymwys 16-18 oed mewn sefydliadau chweched dosbarth neu addysg bellach. Mae mynediad i LCA yn seiliedig ar brawf modd o incwm cartref. Ers mis Ebrill 2023, gall enillwyr cymwys gael cyfradd uwch o LCA sef £40 yr wythnos ar gyfer presenoldeb ar gyrsiau i helpu â chostau addysg bellach llawnamser fel trafnidiaeth, prydau bwyd, llyfrau a chyfarpar.

17. Gallai dysgwyr cymwys 19 oed a throsodd mewn sefydliad addysg bellach neu ganolfan ddysgu fod yn gymwys i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru. Mae mynediad i Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar brawf modd o incwm y cartref. Gall dysgwyr llawnamser gael dyfarniad o hyd at £1,500, a gall dysgwyr rhan-amser gael hyd at £750, i helpu gyda chostau astudio ar gyfer pob blwyddyn academaidd eu cwrs.

18. Gall y Gronfa Ariannol Wrth Gefn helpu dysgwyr cymwys mewn sefydliad addysg bellach sy'n wynebu anawsterau ariannol. Gall y Gronfa Ariannol Wrth Gefn helpu i dalu costau fel ffioedd, costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs, trafnidiaeth, prydau bwyd, a chostau gofal plant.

19. Mae pob person ifanc sy'n byw ac yn astudio yng Nghymru sydd rhwng 16 a 21 oed yn gymwys i gael "FyNgherdynTeithio", sy'n rhoi hyd at 1/3 iddynt oddi ar gostau tocynnau ar wasanaethau bysiau lleol ledled Cymru.

**ADY**

20. Nod y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd gan ysgolion, awdurdodau lleol, sefydliadau AB ac asiantaethau eraill yn sgil y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru yw chwalu rhwystrau fel bod dysgwyr ag ADY yn cael y ddarpariaeth dysgu ychwanegol gywir ar yr adeg gywir a bod eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses.

21. Buddsoddwyd mwy na £62m o gyllid grant refeniw rhwng 2020 a 2023 i gefnogi'r broses o roi'r system ADY ar waith, i gynnig mwy o adnoddau mewn ysgolion i wneud hynny ac i arwain strategaethau ysgol gyfan i ymgorffori addysg gynhwysol.

22. Mae mwy na £56.3 miliwn wedi'i sicrhau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25 i gefnogi diwygiadau ADY ac i roi hwb i'r gefnogaeth i ddysgwyr ADY mewn addysg brif ffrwd ac addysg arbenigol cyn ac ar ôl 16. Mae hyn ar ben sicrhau cyllidebau awdurdodau lleol ar gyfer addysg drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

23. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wneir mewn perthynas â diwygio ADY fel rhan o broses barhaus y Pwyllgor o graffu ar roi diwygiadau addysg ar waith.

**Llesiant Disgyblion**

24. Mae’r Cynllun Adnewyddu a Diwygio a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 wedi amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr mewn ymateb i'r pandemig. Cefnogodd y cynllun system addysgol wydn, wedi'i hadfywio, sy'n canolbwyntio ar ddiwygiadau sy'n rhoi iechyd a llesiant corfforol a meddyliol dysgwyr wrth wraidd ei ddull gweithredu.

25. Rydym yn blaenoriaethu'r broses o roi'r fframwaith ysgol gyfan ar waith gyda chyllid penodol o gyllidebau Iechyd ac Addysg. Mae'r cyllid yn cynnwys cael ymarferwyr penodedig i weithio gydag ysgolion a phartneriaid i fodloni gofynion y fframwaith, gan eu cefnogi i asesu eu hanghenion o ran llesiant a mynd i'r afael â nhw.

26. Dyfarnwyd mwy na £5m i Fyrddau Iechyd i ddarparu gwasanaeth cenedlaethol mewngymorth ysgolion CAMHS, lle mae gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol penodedig mewn ysgolion yn cynnig gwasanaethau ymgynghori, cyswllt, cyngor a hyfforddiant.

27. Fel y cadarnhawyd yn y gyllideb, byddwn yn parhau i gefnogi dysgwyr ac ysgolion i ddelio ag effeithiau'r pandemig yn y dyfodol. Mae'r blaenoriaethau cyllid ar gyfer eleni yn parhau i fod yn gyson â'n blaenoriaethau o gefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr.

28. Rydym hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol yn y sector AB i gefnogi mentrau iechyd meddwl a lles i staff a dysgwyr, ac i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau iechyd meddwl a lles y pandemig. Dyrannwyd mwy na £21m ers 2020/21. Mae'r buddsoddiad eleni wedi helpu i ddarparu'r cymorth ychwanegol sy'n ofynnol i gynyddu maint timau llesiant/lles er mwyn ymateb i'r niferoedd cynyddol o atgyfeiriadau, darpariaeth cwnsela i ddysgwyr, ac i ariannu gweithgareddau meithrin gwydnwch ac i gefnogi llesiant cymdeithasol ac emosiynol y dysgwyr.

**Adolygu Rolau a Chyfrifoldebau Partneriaid Addysg yng Nghymru a Chyflwyno Trefniadau i Wella Ysgolion.**

29. Comisiynwyd y “Cylch Gorchwyl i Adolygu Rolau a Chyfrifoldebau Partneriaid Addysg yng Nghymru a Chyflwyno Trefniadau i Wella Ysgolion” ym mis Gorffennaf 2023, dan arweiniad yr Athro Dylan Jones (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant), gyda chefnogaeth Partneriaeth ISOS.

30. Ym mis Rhagfyr, cyflwynodd y tîm adolygu adroddiad ar gynnydd a'r themâu a'r canfyddiadau allweddol a ddaeth i'r amlwg. Bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar y broses fanwl o gynllunio a chyd-lunio trefniadau diwygiedig i wella ysgolion. Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ar 31 Ionawr. (Datganiad Ysgrifenedig: Y

cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru (31 Ionawr 2024) | LLYW.CYMRU).

31. Tynnodd canfyddiadau interim y tîm adolygu sylw at negeseuon cyson gan arweinwyr ysgolion a safbwyntiau clir gan y mwyafrif o bartneriaid awdurdod lleol. Mae'r canfyddiadau hynny yn cyd-fynd â'r sail dystiolaeth ehangach ar y system yng Nghymru o amrywiaeth o adroddiadau blaenorol, (e.e. yr adolygiad o arweinyddiaeth, adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar Ddysgu Proffesiynol i Athrawon, Adolygiad Sibieta o Wariant Ysgolion yng Nghymru, Estyn).

32. Roedd yr adborth yn glir ar y cyfeiriad a ffefrir gan arweinwyr ysgolion a'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn seiliedig ar yr elfennau allweddol canlynol:

- cyfle i arwain ar faterion gwella ysgolion drwy gael mwy o ffocws ar gydweithio'n lleol a gwaith partneriaeth rhwng arweinwyr ysgolion a'u Hawdurdod Lleol
- partneriaethau rhwng mwy nag un ALl gan droi cefn ar fodel rhanbarthol ehangach o gymorth
- arweinyddiaeth genedlaethol gryfach gyda blaenoriaethau cenedlaethol cliriach i ysgolion.

**Y Comisiwn Addysg Drydyddol Ac Ymchwil**

33. Ym mis Ebrill 2024, bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn dechrau ar waith i ddatblygu ei gynllun strategol cyntaf ac yn dechrau paratoi i gyflwyno system newydd i reoleiddio addysg drydyddol. Nod y gwaith paratoi hanfodol hwn yw cefnogi proses esmwyth o drosglwyddo i roi'r Comisiwn ar waith, gan sicrhau nad oes unrhyw achosion amlwg o darfu ar ddysgwyr na darparwyr. Bydd y gwaith hwn yn parhau ochr yn ochr â dull fesul cam i weithredu'r ddeddfwriaeth a chaiff pwerau eu trosglwyddo i'r Comisiwn ar 1 Awst 2024.

34. Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cymryd cyfrifoldebau presennol CCAUC ynghyd â'r cyfrifoldebau cyfatebol ar gyfer cyllido a goruchwylio addysg bellach, dosbarthiadau chweched dosbarth, dysgu oedolion a phrentisiaethau. Bydd gan y Comisiwn gyfrifoldebau statudol i wella lefelau cyfranogiad, cadw a chyrhaeddiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

35. Mae'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn gorff cyhoeddus newydd yng Nghymru, a fydd yn cynnig potensial a chyfleoedd gwych i hyrwyddo gwelliant ar draws y sector. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r corff newydd, gan roi cymorth ac arbenigedd gyda'r nod o hwyluso ei lwyddiant.

**Addysg Uwch**

36. Rydym wedi rhoi cymorth ariannol sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf i helpu sefydliadau addysg uwch i ddelio ag effaith y pandemig. Mae'r cyllid hwn, ynghyd â'n system cymorth myfyrwyr, yn rhoi sylfaen gref ar gyfer cynnal addysg uwch yng Nghymru. Er bod CCAUC wedi cadarnhau nad oes pryderon ariannol uniongyrchol ar hyn o bryd, mae sefydliadau'n parhau i wynebu pwysau o ran chwyddiant a chostau byw, costau adeiladu a chynnal a chadw cynyddol a phwysau sylweddol yn sgil cynnydd mewn cyflogau a phensiynau.

37. Cafodd mwy na £121m o gyllid ychwanegol ei ddyrannu yn 2020-21, gan gynnwys £50m ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a chronfeydd caledi. Rhoddwyd dyraniadau pellach o fwy na £54m i gyd yn 2021-22. Mae cyfanswm

y dyraniad yn 2022-23 yn cynnwys cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn i gefnogi mentrau penodol fel prosiect mentora AB, iechyd meddwl a mentrau lles i fynd i'r afael ag effeithiau'r cynnydd mewn costau byw.

**Sam Rowlands**
Member of the Welsh Parliament for
North Wales
-
Aelod Senedd dros
Gogledd Cymru

**North Wales Office | Swyddfa Gogledd Cymru**
North Wales Business Park, Abergele LL22 8LJ
-
**Cardiff Office | Swyddfa Caerdydd**
Senedd Cymru, Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
-
**Tel | Ffôn:** 0300 200 7267
**Email | E-bost:** sam.rowlands@senedd.wales

Jayne Bryant, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
CF99 1SN

19 Chwefror 2024

Annwyl Jayne,


**Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**
Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i chi ac aelodau eraill o'r Pwyllgor am yr amser rydych wedi'i dreulio'n ystyried manylion y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru).

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas ag un o'r pwyntiau a wnes i yn ystod fy sesiwn dystiolaeth ar 1 Chwefror, yn ymwneud â'm disgwyliadau o ran effaith y Bil ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed.

Nododd fy ymateb cychwynnol i'r cwestiwn penodol a ofynnwyd fod y Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn cyfeirio at ble y gall y Bil roi cyfleoedd i gefnogi pobl ifanc â'u hiechyd meddwl. Dywedais y byddwn yn dilyn hynny gyda nodyn, sydd wedi'i gynnwys yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddwn yn hapus i roi unrhyw wybodaeth bellach y gallai'r Pwyllgor ei hystyried yn ddefnyddiol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,



Sam Rowlands AS
**Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru**

**Atodiad: Nodyn o sut y gall Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) gefnogi pobl ifanc ag iechyd meddwl**

Mae effaith gadarnhaol y Bil ar iechyd meddwl plant wedi'i hamlygu drwy gydol y gwaith craffu ar y Bil mewn tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, gennyf i fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, a chan randdeiliaid eraill.

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y nodyn hwn yn tynnu sylw at yr hyn sydd eisoes wedi'i nodi yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil. Nid yw'n ceisio tynnu gwybodaeth allan sydd wedi'i chyflwyno fel tystiolaeth i'r Pwyllgor.

**Ystyried yr ymchwil**

Mae ymchwil hefyd yn dangos bod plant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl, a bod problemau yn cynyddu ymhlith plant a phobl ifanc.[1] Mae polisi Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r her hon drwy ganolbwyntio ar ddatblygu gwydnwch emosiynol plant a phobl ifanc a'r sgiliau i ofalu am eu hiechyd meddwl eu hunain.[2] Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar strategaeth iechyd meddwl newydd, ac un cynnig craidd yw bod pobl yn cymryd camau i hybu eu lles eu hunain a lles y gymuned ehangach.[3] (Paragraff 52 o'r Memorandwm Esboniadol).

Daeth adolygiad systematig diweddar o ddeunydd ysgrifenedig o fanteision 'chwaraeon awyr agored' i gymdeithas i'r casgliad eu bod yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau sy'n cynrychioli buddsoddiad cost-effeithiol.[4] Mae'r manteision yn cynnwys iechyd a lles corfforol a meddyliol, dinasyddiaeth weithredol a chyfraniad at fondio mewn teuluoedd a chymunedau. Mae tystiolaeth gref hefyd o ddatblygiad rhyngbersonol sy'n ymwneud ag agweddau corfforol, meddyliol, gwybyddol, ymddygiadol a chymdeithasol o'ch hunan, manteision addysgol, gan gynnwys gwell hunan-gymhelliant a pharodrwydd i wynebu a goresgyn heriau.

Yn ystod y pandemig Covid-19 a'r cyfnod dilynol o ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo, roedd dogfennau canllaw Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddysgu yn yr awyr agored a'r manteision i iechyd a llesiant yn sgil hynny. Mae canlyniadau arolwg diweddaraf Active Lives[5] yn dangos, er bod plant iau yn fwy actif mewn chwaraeon tîm, wrth i bobl fynd yn hŷn, gallant barhau i fod yn actif trwy weithgareddau fel cerdded, beicio, rhedeg a nofio. Er bod yr arolwg hwn yn cyfeirio at ymatebwyr yn Lloegr gan nad oes data cymharol ar gael ar gyfer Cymru, mae'n rhesymol awgrymu na fyddai'r canfyddiadau'n sylweddol wahanol

---

[1] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dadansoddiad newydd yn datgelu anghydraddoldebau o ran gofal iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru (Gorffennaf 2022)

[2] Ymchwil y Senedd, Plant a phobl ifanc: a oes argyfwng iechyd meddwl? (Mai 2022)

[3] Llywodraeth Cymru, Strategaeth iechyd meddwl

[4] Eigenschenk, B. et al. (2019) 'Benefits of Outdoor Sports for Society. A Systematic Literature Review and Reflections on Evidence.', International Journal Of Environmental Research And Public Health, 16(6), p. 937.

[5] Sport England, Active Lives Adult Survey November 2020-21 Report (Ebrill 2022)

yng Nghymru. Mae gwaith ymchwil diweddar a gyflwynwyd drwy Gymdeithas Ymchwil Addysg Prydain[6] yn awgrymu cysylltiadau arwyddocaol rhwng iechyd pobl hŷn, lefelau gweithgaredd a'r profiadau a gawsant fel pobl ifanc wrth gymryd rhan mewn addysg awyr agored. (Paragraffau 79 ac 80 o'r Memorandwm Esboniadol)

**Manteision iechyd meddwl sy'n codi o'r Bil**

Yn 2021-22, roedd iechyd meddwl yn unig yn cyfrif am 10.9% o gyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru (tua £962 miliwn).[7] At hynny, amcangyfrifir bod iechyd meddwl yn costio £4.8 biliwn[8] i economi Cymru bob blwyddyn ac, er nad oes modd eu mesur yn uniongyrchol, mae gan cyrsiau addysg awyr agored breswyl botensial sylweddol i fod yn llawer mwy na phrofiadau untro a gallant ysgogi cyfranogiad gydol oes mewn gweithgaredd awyr agored, gyda manteision iechyd a lles cysylltiedig[9], gan leihau'r effaith ar y GIG o bosibl.

Yn ei dro bydd hyn yn cael effeithiau hirdymor ar iechyd a lles y boblogaeth wrth iddynt adael yr ysgol a chael mwy o gyfle i ddod yn oedolion iach (hefyd yn unol ag un o bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru). Gallai manteision iechyd meddwl a llesiant rhaglenni addysg awyr agored breswyl leihau'r galw ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn y dyfodol agos a gallent hefyd leihau'r galw ar y GIG ehangach a gwasanaethau gofal iechyd yn y tymor hwy.

Mae iechyd meddwl plant wedi cael lle amlwg ar yr agenda polisi a chraffu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiadau i flaenoriaethu ym maes iechyd meddwl, blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau er mwyn gwella ataliaeth, mynd i'r afael â stigma, a hyrwyddo ymagwedd dim drws anghywir o ran cael mynediad at gymorth iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys fframwaith NYTH[10] sy'n ceisio sicrhau dull system gyfan ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant a chymorth i fabanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru.

Yn 2018, cyhoeddodd un o bwyllgorau'r Senedd "Cadernid Meddwl", sef adroddiad ar ei ymchwiliad i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc[11] a chynhaliodd waith craffu dilynol yn 2020.[12] Yn dilyn hynny, mae gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant gyfrifoldeb gweinidogol ar y cyd dros y Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant. Mae Llywodraeth

---

6 Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain, Ageing in nature: Outdoor learning as lifelong learning (Mehefin 2021)
7 Llywodraeth Cymru: Cyllidebau Rhaglenni Gwariant y GIG: Ebrill 2021 i Fawrth 2022
8 Adroddiad y Sefydliad Iechyd Meddwl: The economic case for investing in the prevention of mental health conditions in the UK
9 Takako Takano (2010) A 20-year retrospective study of the impact of expeditions on Japanese participants, Journal of Adventure Education and Outdoor Learning, 10:2, 77-94
10 Llywodraeth Cymru, Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): cyflwyniad
11 Senedd Cymru, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Gwella Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ('Cadernid Meddwl') (2018)
12 Senedd Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd: Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc ('Cadernid Meddwl') – Gwaith dilynol (2020)

Cymru wedi dyroddi canllawiau statudol i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol ar sefydlu dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.[13] Mae gan y Senedd ddiddordeb a chyfrifoldeb craffu parhaus ar y maes polisi hwn, gan gynnwys yn fwyaf diweddar gan Senedd Ieuenctid Cymru[14] wrth i bryderon barhau am iechyd meddwl plant a'u mynediad amserol at wasanaethau[15], yn bennaf oherwydd effaith pandemig COVID-19. Mae gan y Bil y potensial i gyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael â'r agenda hon. (Paragraffau 92 a 95 o'r Memorandwm Esboniadol)

Mae problemau iechyd meddwl yn cyfrif am £962 miliwn o gyfanswm gwariant GIG Cymru.[16] Mae iechyd a llesiant meddwl ar draws addysg yn ganolog i Fframwaith Nerth, Ymddiried, Tyfu'n ddiogel a Hybu (NYTH) Llywodraeth Cymru.[17]

Mae cysylltiad cadarnhaol rhwng cysylltiad â byd natur drwy weithgareddau addysgiadol a chanlyniadau iechyd meddwl gwell[18] mewn plant a phobl ifanc yn eu harddegau. Roedd y cysylltiadau mwyaf cyson a welwyd rhwng canlyniadau iechyd meddwl a dysgu mewn amgylcheddau naturiol yn ymwneud â gwydnwch, straen ac iechyd meddwl yn gyffredinol.[19] Cofnodwyd gwelliannau o ran llesiant emosiynol, hunan-barch ac iselder hefyd. Nodwyd bod cysylltiad â byd natur yn ffordd effeithiol o atal problemau iechyd meddwl cyffredin.

Mae dysgu mewn amgylcheddau naturiol wedi ei gysylltu[20] ag adeiladu cyfalaf cymdeithasol, meithrin balchder, ymdeimlad o berthyn, a chyfranogiad cymunedol. Mae profiadau sy'n rhoi cyfle i ymgolli ym myd natur[21], gan gynnwys profiadau awyr agored preswyl a mathau eraill o addysg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, wedi eu cysylltu â gwell hunan-barch a mwy o hunaneffeithiolrwydd o gymharu â rheolyddion. Mae astudiaeth a oedd yn defnyddio data o Ddenmarc wedi dangos bod iechyd meddwl sy'n ffynnu yn gysylltiedig â thua $1.2 biliwn (sy'n cyfateb i £848 miliwn) yn llai o bosibl o gostau iechyd a chostau chymdeithasol.[22] (Paragraffau 222 a 224 o'r Memorandwm Esboniadol)

**Ymatebion i'r ymgynghoriad**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn adeiladu ar yr ymatebion a gafwyd drwy'r ymgynghoriad helaeth a gynhaliwyd ar amcanion polisi'r Bil.

---

[13] Llywodraeth Cymru, Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol (2021)
[14] Senedd Ieuenctid Cymru, Ein hiechyd meddwl a'n lles
[15] Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi gwneud iechyd meddwl plant a phobl ifanc ac yn mynd ar drywydd y 'Dim Drws Anghywir' model yn flaenoriaeth polisi ar gyfer 2023-26.
[16] Cyllidebau rhaglenni gwariant y GIG: Ebrill 2021 i Fawrth 2022
[17] NYTH (iechyd a llesiant meddwl): adroddiad cryno
[18] Davis et al, 2021.
[19] Tillman et al, 2018
[20] Council for Learning Outside the Classroom, Evidence Note, 2022
[21] Mygind et al, 2019
[22] Santini et al, 2021

Tynnodd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd sylw at lawer o fanteision cyrsiau addysg awyr agored breswyl, megis y nodweddion personol y gellir eu caffael a'u datblygu, gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol a datblygiad personol cyfannol yn gyffredinol. Dywedodd plant mai bondio â ffrindiau a chael hwyl oedd rhai o’r prif fanteision, ac yna’r cyfle i gael profiad o fod oddi cartref, dysgu sgiliau newydd, dysgu am yr amgylchedd a byd natur, a bod yn yr awyr agored. (Paragraff 363 o'r Memorandwm Esboniadol).

Mae cymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl yn llesol i iechyd a llesiant meddyliol plant. Nodwyd yn benodol fod hyn yn brif fantais gan tua 40% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyffredinol a chan tua 8% o'r rhai a ymatebodd i’r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc. (Paragraff 368 o'r Memorandwm Esboniadol).

Eitem 3.2

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

20 Chwefror 2024

Annwyl Lywydd,

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.19.2, rwy'n ysgrifennu i ofyn am ganiatâd y Pwyllgor Busnes i gynnal cyfarfod arbennig o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ddydd Iau 14 Mawrth. Rwyf wedi cynnwys agenda ddangosol isod.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu defnyddio'r amser cyfarfod hwn i glywed tystiolaeth gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru fel rhan o'n gwaith ar Ddyfodol Dur yng Nghymru. Oherwydd natur frys y gwaith hwn, hoffai'r Aelodau glywed gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn gynted â phosibl. Ar ôl ystyried dyddiadau posibl rhwng y tîm clercio a swyddfa'r Gweinidog, dyma'r amser priodol agosaf y gallem glywed y dystiolaeth hon.

Mae gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer 14 Mawrth. Mae Hefin David AS yn aelod o'n Pwyllgor ni a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Maent yn rhagweld y bydd eu cyfarfod yn gorffen am 13:30. Rwyf wedi gwneud trefniadau gyda Hefin ac mae'n fodlon gyda'r amseroedd ar gyfer y Pwyllgorau ar y diwrnod. Rydym hefyd yn rhannu aelod gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sydd â slot wrth gefn ar 14 Mawrth. Maent yn ystyried defnyddio'r slot wrth gefn hwnnw, fodd bynnag, os ydynt yn gwneud hynny maent yn rhagweld y bydd eu cyfarfod yn dod i ben am 11:00 felly ni ddylai hyn achosi unrhyw broblemau.

Brasamcan o’r agenda:

13:35-13:45 – Rhag-gyfarfod preifat
13:45-14:45 – Dyfodol Dur yng Nghymru: Ysgrifennydd Gwladol Cymru
14:45-14:55 – Trafod y dystiolaeth yn breifat

Rwyf wedi anfon copi o’r llythyr hwn at Delyth Jewell AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Jayne Bryant AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Russell George AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er gwybodaeth.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

Jayne Bryant AS,

Cadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,

Senedd Cymru.

*Trwy e bost.*

Y 22ain o Chwefror, 2024

Annwyl Jayne Bryant,

Ysgrifennaf atoch fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, undeb sydd yn cynrychioli ac yn cefnogi nid yn unig athrawon ac arweinwyr ysgol, ond hefyd swyddogion gwasanaethau gwella ysgolion.

Fel y gwyddoch, mae'r datganiad a gyhoeddwyd gan Jeremy Miles y Gweinidog Dros Addysg a'r Gymraeg, ar y 31ain o Ionawr yn cyfeirio at drefniadau newydd sydd i'w rhoi ar waith parthed gwella ysgolion. Fel rhan o'r trefniadau hynny gwelir disgwyliad i sefydlu partneriaeth rhwng mwy nag un awdurdod gan symud i ffwrdd o fodel cymorth rhanbarthol ehangach.

Mae'r aelodau hynny sydd yn gweithio i gonsortia yn hynod rwystredig a siomedig gan na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol gyda nhw fel unigolion parthed unrhyw newidiadau posibl, dim mwy nag y bu i athrawon llawr dosbarth, sydd hefyd yn syndod mawr. Ymhellach, ni chafwyd unrhyw arwydd ymlaen llaw gan ein haelodau bod datganiad mor bellgyrhaeddol am gael ei ryddhau yn gyhoeddus ar y pnawn dan sylw. Yn wir, gan fod llawer yn gweithio gydag ysgolion y pnawn hwnnw, cawsant wybod am y bwriad i ddifodi'r consortia trwy law athrawon ac arweinwyr ysgolion. Rydym o'r farn bod hyn yn gwbl annerbyniol ac mae wedi peri gofid meddwl i sawl un o'n haelodau.

Mae'n newid sylfaenol i'r gyfundrefn addysg yng Nghymru, felly ein cais yw eich bod yn galw i mewn a chraffu ar y Datganiad Gweinidogol er mwyn:

- Sefydlu bod yr adolygiad wedi cydymffurfio â gofynion y cylch gorchwyl;
- Deall methodoleg a chywirdeb y dystiolaeth a gasglwyd;
- Deall y rhesymeg dros newid llinellau amser yr adolygiad hanner ffordd drwodd;

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU | 01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

- Deall goblygiadau'r argymhellion;

- Sefydlu pa mor hyderus y gallwn fod y bydd y trefniadau arfaethedig yn darparu gwell cefnogaeth i ysgolion;

- Sefydlu a ymgymerwyd â phroses asesu effaith newid i gynnwys meysydd megis yr Iaith Gymraeg, cydraddoldeb, llwyth gwaith, cyllid ac ati.

- Ymchwilio i faint y bydd y newid sylweddol hwn mewn polisi yn ei gostio mewn cyfnod cyllidebol anodd gan nad oes unrhyw wybodaeth ariannol ar gael – dylai hyn gynnwys costau diswyddo staff a chau i lawr trefniadau presennol awdurdodau lleol a chostau sefydlu ar gyfer unrhyw drefniadau newydd. Dylai hyn hefyd gynnwys y gost ariannol i ryddhau staff ysgol i fynd i'r afael â'r argymhelliad cyntaf.

- Ceisio deall y gwahaniaeth barn rhwng canfyddiadau'r Prif Arolygydd yn yr Adroddiad Blynyddol eleni a chanfyddiadau'r Adolygiad Haen Ganol, yn enwedig ynghylch gallu ysgolion i hunan arfarnu a chynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliant;
- Deall beth yw'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i roi hyder i'r pwyllgor mai ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i hunan reoleiddio eu gwelliant eu hunain;

- Gwerthuso'r llwyth gwaith ychwanegol ar ysgolion a phenaethiaid yn arbennig i weithredu argymhelliad cyntaf ynghylch cydweithio, cydweithio a gwella ysgol i ysgol;


- Deall sut bydd modd i ALlau gyflawni eu cyfrifoldebau statudol wrth i'r gwaith o gefnogi gwella ysgolion yn cael ei gefnogi ar lefel genedlaethol.

Dwi'n siŵr eich bod yn llawn sylweddoli cyfnod mor anodd, ansicr a dyrys ydy hwn i'n haelodau sy'n gweithio oddi fewn i'r gwasanaethau rhanbarthol. Mae'n allweddol felly ein bod yn sicrhau tegwch iddynt drwy ystyried holl oblygiadau'r newidiadau hyn.

Fel y byddwch yn tybio, rydym hefyd yn awyddus i chi sicrhau bod unrhyw fodelau newydd gaiff eu sefydlu yn darparu cefnogaeth lawn i bob ysgol, beth bynnag eu hiaith addysgu a lle bynnag y bônt. Hynny gan gynnig cefnogaeth fydd cystal, os nad gwell, na'r hyn sydd yn cael ei gynnig ar hyn o bryd ac yn arbennig felly gwydnwch ac effeithiolrwydd y gefnogaeth i ysgolion, yn arweinwyr ac yn athrawon, sydd yn darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn ddiffuant,



Ioan Rhys Jones,

Ysgrifennydd Cyffredinol.

Ceg: Aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Clerc y Pwyllgor

**Andrew RT Davies**
Aelod o'r Senedd dros
Ganol De Cymru
—
Member of the Senedd for
South Wales Central

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
AndrewRT.Davies@senedd.cymru
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
AndrewRT.Davies@senedd.wales

0300 200 7233
@andrewrt.davies
@AndrewRTDavies
/AndrewRTDaviesAM

Jayne Bryant MS,
Chair, Children, Young People and Education Committee,
Via email - SeneddChildren@senedd.wales

Dyddiad | Date: 23rd February 2024

Pwnc | Subject: CAFCASS

Dear Jayne,

I recently met with a constituent regarding a difficult child-protection issue which had been through the family court system.

There was concern expressed by my constituent about the role of Cafcass in the proceedings and they felt that some of the actions of Cafcass were beyond the remit of the organisation. Whilst I understand that has been investigated, I am concerned my constituent's experience shows that Cafcass may be under-resourced.

Has the Children, Young People and Education Committee undertaken a review of Cafcass and would the committee be interested in undertaking an enquiry on the resources that Cafcass has available, whether these are adequate, and the impact on its service provision?

With kind regards,

Andrew

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon